# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Bob Clay | Adran Etholiadol: | Llansamlet |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliodd holl gynghorwyr Llansamlet gymorthfeydd rheolaidd, ar nos Wener 1af a 3edd y mis, 5-6pm yng Nghanolfan Gymunedol Gellifedw, Lôn Gwesyn, ac ar 2il a 4ydd dydd Sadwrn y mis, 10.30-11.30am yng Nghlwb Ieuenctid Stadwen, Heol Bethel. Euthum hefyd i gyfarfodydd PACT a'r Gymdeithas Gymunedol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol*.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 7 | / | 9 | 78 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 11 | / | 13 | 85 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALl | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 3 | / | 7 | 43 | % |
| **CYFFREDINOL** | **40** | **/** | **55** | 73 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfod Craffu:** | | | | | |
| Panel Craffu Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 4 | / | 6 | **67** | % |
| **CYFFREDINOL** | **4** | **/** | **6** | **67** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Llywodraethwr Ysgol Iau Gellifedw.

Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau ac, yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ymdrin ag amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â thai, ynni, tlodi a gwasanaethau newydd.

Parhaodd y Pwyllgor Craffu Arbennig a archwiliodd y broses ar gyfer nodi safleoedd sipsiwn a theithwyr â'i waith yn ystod y flwyddyn a threuliais amser sylweddol yn gwrando ar dystiolaeth ac ystyried ei goblygiadau.

Ynghyd â'm cydweithwyr, cyfrannodd fy ngwaith ar y Pwyllgor Archwilio i welliannau gwerthfawr i faterion ariannol y cyngor.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Parhaodd canlyniadau tagfeydd traffig a pharcio ceir amhriodol i achosi problemau difrifol mewn ardaloedd amrywiol o'r ward. Mae'r sefyllfa sy'n effeithio ar Dregof wedi bod yn arbennig o anodd ac nid oedd wedi'i datrys erbyn diwedd y flwyddyn.

Gwnaed cynnydd mawr wrth ddatrys y problemau ar Stad Brynheulog. Ar ôl oedi sawl gwaith, cafodd y goleuadau eu hadfer a'u gwella o'r diwedd ar Heol Ynysallan.

Dechreuwyd ailadeiladu Ysgol Lôn-las o'r diwedd ar ôl oedi sawl gwaith a oedd yn peri pryder ac yn cymryd amser.

Fel Dirprwy Aelod y Cabinet sy'n cefnogi'r rhaglen Cartrefi Newydd, treuliais lawer o amser ar y broses sydd wedi arwain at adeiladu'r tai cyngor newydd cyntaf yn Abertawe ers degawdau.
Mae hyn yn creu swyddi a chaiff y tai eu hadeiladu i'r safonau effeithlonrwydd ynni uchaf.

Rwy'n falch fy mod wedi symud y cynnig llwyddiannus i'r cyngor llawn a ddechreuodd lunio polisi cynllunio a oedd yn ein galluogi i atal yr holl weithgarwch ffracio.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiwn hyfforddi ganlynol:

25/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi bod i nifer o sesiynau briffio a seminar ar agweddau amrywiol ar wasanaethau'r cyngor. Rwyf hefyd wedi buddsoddi rhan sylweddol iawn o'm hamser yn cael cyngor arbenigol ar strategaethau ynni lleol blaengar ac amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud ag adeiladu tai.

Rwyf wedi parhau â'm diddordeb mewn newidiadau i ofal cymdeithasol i oedolion gyda chyfeiriad penodol at y ffordd mae polisi tai'n cyfrannu i'r ‘agenda atal’ a gwaredu tlodi tanwydd.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Yn ogystal â chydweithwyr ward, rwyf wedi ceisio cynnwys y gymuned wrth gymryd dros asedau a gwasanaethau pwysig nad ydynt yn hanfodol. Rwyf hefyd wedi ymhyfrydu yn y cynnydd a wnaed gan Gyfeillion Parc Heol Las a Chyfeillion Gwarchodfa Natur Bro Tawe.
Mae'r cyfyngiadau gwariant y mae'r cyngor wedi'i orfodi i'w mabwysiadu'n achosi rhwystredigaeth gynyddol ymhlith etholwyr y mae ganddynt ddisgwyliadau y maent yn credu y dylid eu diwallu.
Rwyf wedi ymddiddori'n enwedig mewn creu incwm o ‘fasnacholi gwasanaethau'r cyngor’ ac wedi cynnig nifer o gynigion. Ymhell o ‘breifateiddio’, nodweddion bras hyn yw galluogi corff cyhoeddus – y cyngor – i greu incwm ar gyfer gwasanaethau hanfodol trwy gynnig rhai o'n gwasanaethau i gleientiaid masnachol.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| |
|---|
| Cyflog Uwch: £22,000<br><br>Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:<br>http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0<br><br>Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:<br>http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 27.05.2016 |